Panel Ieuenctid Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC):

Canfyddiadau ac Argymhellion Allweddol 2019

IOPC Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

LEADERS UNLOCKED

PANEL IEUENCTID

Cyflwyniad

Mae'r dystiolaeth sy'n bodoli yn dynodi bod pobl ifanc yn llai tebygol o gyflwyno cwyn am yr heddlu na phobl hŷn. Dangosodd canfyddiadau arolwg yr IPCC yn 2014 i hyder y cyhoedd yn y system gwynion bod pobl ifanc a phobl o gymunedau BAME (Du Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig) yn benodol yn dangos diffyg hyder yn y system gwynion[1].

Sefydlwyd Panel Ieuenctid yr IOPC ym Mawrth 2018 i ymateb i'r her hon. Mae'r Panel Ieuenctid yn cynnig cyfrwng i oedolion ifanc 16-25 oed roi gwybodaeth fydd yn sail i waith yr IOPC, ac i helpu'r IOPC i gynyddu ymddiriedaeth a hyder ymhlith pobl ifanc.

Amcanion y Panel Ieuenctid oedd:

- Recriwtio grŵp amrywiol, llawn cymhelliant, o bobl ifanc 25-30 oed o Gymru a Lloegr i ddod yn aelodau o'r Panel Ieuenctid.
- Gweithio gyda'r grŵp hwn i edrych sut i gynyddu hyder yn system gwynion yr heddlu ymhlith pobl ifanc.
- Cynnal digwyddiadau ymgysylltu dan arweiniad cymheiriaid i gasglu barn 800 o bobl ifanc ar draws Cymru a Lloegr.
- Datblygu argymhellion ymarferol ar gyfer cynyddu ymddiriedaeth a hyder ymhlith pobl ifanc.
- Galluogi pobl ifanc i roi gwybodaeth i fod yn sail i waith yr IOPC a chraffu arno o safbwynt pobl ifanc.

Comisiynodd yr IOPC Leaders Unlocked i gyflawni'r gwaith hwn. Mae Leaders Unlocked yn bodoli i ganiatáu i bobl ifanc a grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i gael llais cryfach ar y materion sy'n effeithio ar eu bywydau – mewn addysg, plismona, cyfiawnder troseddol, iechyd a mannau eraill. Rydym yn fenter gymdeithasol nid er elw gydag ymrwymiad dwfn i effaith cymdeithasol. Am ragor o wybodaeth gweler **www.leaders-unlocked.org**

Am yr adroddiad hwn

Seiliwyd yr adroddiad hwn ar dystiolaeth o dros 800 sgwrs gyda phobl ifanc ar draws Cymru a Lloegr yn 2018. Mae'r canfyddiadau o'r sgyrsiau yma wedi cael eu recordio yn ystod 21 o ddigwyddiadau dan arweiniad cymheiriaid a 4 cyfarfod o Banel Ieuenctid yr IOPC.

Yn yr adroddiad hwn trefnwyd y canfyddiadau allweddol dan bum thema, sy'n amlinellu beth mae Panel Ieuenctid yr IOPC wedi ei ddarganfod yng nghyswllt y rhwystrau a'r dylanwadau sy'n effeithio ar ymddiriedaeth a hyder pobl ifanc yn system gwynion yr heddlu. Mae pob adran yn cynnwys dadansoddiad o ymatebion pobl ifanc ar sail dyfyniadau air am air.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys argymhellion allweddol sydd wedi cael eu cyflwyno gan Banel Ieuenctid yr IOPC o ganlyniad i'w canfyddiadau. Mae'r Panel Ieuenctid wedi dynodi'r argymhellion hyn ar y cyd ag aelodau staff yr IOPC.

Bwriedir i'r adroddiad hwn weithredu fel cofnod didwyll, annibynnol o'r hyn y mae pobl ifanc wedi ei ddweud wrthym ni trwy'r broses ymgysylltu â chymheiriaid. Fe'i bwriadwyd hefyd i fod yn sail ar gyfer gweithredu pellach ar ran yr IOPC.

[1] Arolwg Hyder y Cyhoedd yr IPCC, Comisiwn Annibynnol Cwynion yr Heddlu, Gorffennaf 2014

Beth a wnaethom

Recriwtio'r Panel Ieuenctid (Ionawr - Mawrth 2018)

Cynhaliodd Leaders Unlocked broses recriwtio mewn dau gam, gan gynnwys ffurflen gais hygyrch a chyfweliad ffôn, i ddewis grŵp amrywiol o bobl ifanc i ymuno â Phanel Ieuenctid yr IOPC.

Buom yn gweithio yn rhagweithiol gyda sefydliadau ar draws Cymru a Lloegr o'r sectorau addysg, statudol, ieuenctid a gwirfoddol i sicrhau bod aelodau'r Panel Ieuenctid yn dod o amrywiaeth o leoedd, cefndiroedd a phrofiadau bywyd. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar recriwtio grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli a'r cymunedau y mae'n effeithio arnynt.

O ganlyniad i'r broses hon recriwtiwyd **28 o bobl ifanc** 16-25 oed yn aelodau o'r Panel Ieuenctid. Roedd y Panel yn cynnwys:

- 50% gwryw, 46% benyw, 4% Trydydd Rhywedd
- 68% o gymunedau BAME
- dynododd 14% eu bod yn LGBTQ+
- 32% gyda phrofiad o gyfiawnder troseddol a/neu blismona

Cyfarfod cychwynnol - gweledigaeth a blaenoriaethau (Mawrth 2018)

Daeth y Panel Ieuenctid newydd at ei gilydd ym Mawrth 2018 gyda chynrychiolwyr o'r IOPC mewn cyfarfod cychwynnol i siapio gweledigaeth ar gyfer y prosiect. Roedd y digwyddiad hwn yn cynnwys gwaith trafod tîm i ddynodi a phwyso a mesur y materion allweddol yn ymwneud â hyder mewn cwynion am yr heddlu a meysydd lle gall y Panel gael effaith.

Hyfforddiant sgiliau a chyd-ddylunio (Ebrill 2018)

Ym mis Ebrill cynhaliwyd digwyddiad gyda'r Panel Ieuenctid i roi'r wybodaeth a'r sgiliau i'r aelodau gyflawni eu rôl. Roedd y digwyddiad hwn yn cynnwys sesiynau trafod gyda gweithwyr IOPC proffesiynol yn amlinellu gwahanol feysydd o waith yr IOPC gan gynnwys ymchwiliadau, apeliadau, polisi a chyfathrebiadau. Roedd hefyd yn cynnwys gwaith i gyd-gynllunio ar gyfer digwyddiadau i ymgysylltu â phobl ifanc eraill.

Datblygu'r offer ar gyfer y Panel Ieuenctid (Mai-Awst 2018)

Yn dilyn y digwyddiad hwn, cynhyrchwyd taflen â gwybodaeth i ieuenctid ar sail syniadau a ddatblygwyd gan y Panel Ieuenctid. Roedd y daflen hon yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol am sut i gyflwyno cwyn a pham, ar ffurf hygyrch i rai 16 i 25 oed. Fe wnaethom hefyd gynllunio a chynhyrchu ffilm fer yn darlunio aelodau'r Panel Ieuenctid yn ymweld â swyddfeydd yr IOPC ac yn cyfweld Cyfarwyddwr Cyffredinol yr IOPC, Michael Lockwood.

Digwyddiadau ymgysylltu â chymheiriaid (Gorffennaf – Tachwedd 2018)

Dros gyfnod o bum mis o Orffennaf i fis Tachwedd 2018, cydarweiniodd aelodau'r Panel Ieuenctid 21 o ddigwyddiadau ar gyfer eu cymheiriaid ar draws Cymru a Lloegr gan ymgysylltu â phobl ifanc mewn amrywiaeth eang o leoliadau gan gynnwys colegau a dosbarthiadau chwech mewn ysgolion, prifysgolion, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol.

Gwelodd y digwyddiadau ymgysylltu â chymheiriaid hyn aelodau Panel Ieuenctid yr IOPC yn arwain ymgynghoriadau gyda phobl ifanc eraill yn eu cymunedau, gyda goruchwyliaeth a chefnogaeth broffesiynol. Ymgysylltodd y broses â thua 800 o bobl ifanc mewn sgyrsiau ystyrlon rhwng cymheiriaid am sut i gynyddu hyder yn system gwynion yr heddlu.

Dadansoddiad ac Argymhellion (Tachwedd 2018)

Yn eu cyfarfod olaf, daeth y Panel Ieuenctid at ei gilydd i ddadansoddi eu canfyddiadau a datblygu argymhellion hyfyw ar gyfer newid. Ystyriodd y Panel Ieuenctid y wybodaeth a gasglwyd yn ystod digwyddiadau ymgysylltu â chymheiriaid, a defnyddio'r data hwn i bennu'r canfyddiadau/negeseuon allweddol am y rhesymau sylfaenol tu ôl i'r diffyg ymddiriedaeth a hyder. Yna buont yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol yr IOPC i ddatblygu argymhellion y prosiect.

Y cyflwyniad terfynol (Rhagfyr 2018)

Ar 13 Rhagfyr, cyflwynodd Panel Ieuenctid yr IOPC ei ganfyddiadau a'i argymhellion i randdeiliaid allweddol yn swyddfeydd yr IOPC, gan gymryd rhan mewn seiat holi ar ffurf panel. Roedd y gynulleidfa yn y digwyddiad hwn yn cynnwys Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cyfarwyddwr Pobl, cyfarwyddwyr rhanbarthol, a staff allweddol o amrywiaeth o adrannau o'r IOPC.

Cyfraniad y Panel Ieuenctid at weithgareddau ehangach yr IOPC (yn parhau)

Yn ystod 2018, cyfrannodd y Panel Ieuenctid hefyd at rai darnau o waith ehangach pwysig gyda'r IOPC. Ym mis Gorffennaf, cymerodd aelodau'r panel ran mewn ymgynghoriad ar strategaeth newydd yr IOPC, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Michael Lockwood. Ym Medi, gwahoddwyd y Panel i gyfrannu at gyhoeddiad Dysgu'r Gwersi yr IOPC am Stopio a Chwilio, gydag aelodau'r Panel yn rhoi eu profiadau personol am gael eu stopio a'u chwilio a dynodi pwyntiau i'w hargymell fel arfer da. Cymerodd aelodau'r Panel Ieuenctid hefyd ran yn Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Allanol yr IOPC (ESRG).

Pwy gyrhaeddwyd gennym

Rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2018, ymgysylltodd Panel Ieuenctid yr IOPC â mwy na **800** o bobl ifanc ar draws Cymru a Lloegr.

Yn ystod y cyfnod hwn cynhaliodd y Panel gyfanswm o 21 o ddigwyddiadau ymgysylltu â chymheiriaid. Mae'r manylion am y digwyddiadau yn ôl rhanbarth fel a ganlyn:

- Llundain (4)
- Gogledd Orllewin Lloegr (4)
- Cymru (4)
- De Orllewin Lloegr (1)
- De Ddwyrain Lloegr (1)
- Canolbarth Lloegr (3)
- Gogledd Ddwyrain Lloegr (4)

Nodir yr holl leoliadau lle cynhaliodd y Panel Ieuenctid ddigwyddiadau ymgysylltu â chymheiriaid ar y map isod. Rydym wedi tynnu sylw at rai o'r mannau hyn i ddarlunio'r amrywiaeth yn y bobl ifanc y gwnaethom ymgysylltu â nhw.



Youth Focus North East, Gateshead a Middlesbrough:
Pobl Ifanc o ardaloedd Gateshead a Middlesbrough, llawer ohonynt â phrofiad o unigrwydd a bod yn ynysig, a rhai ohonynt wedi profi problemau iechyd meddwl.

The Proud Trust, Manceinion:
Pobl Ifanc o'r gymuned LGBTQ+ o ardal Manceinion Fwyaf.

Hideaway Prosiect, Manceinion:
Pobl Ifanc o ardal Moss Side o Fanceinion, o gefndir Affricanaidd-Garibïaidd yn bennaf.

Llamau, Caerdydd:
Pobl ifanc o gefndiroedd Cymreig, gyda phrofiad personol o ddigartrefedd, y system gofal, a/neu'r system cyfiawnder troseddol.

Tower Hamlets College, Dwyrain Llundain:
Myfyrwyr ar gyrsiau cymysg, yn bennaf o'r gymuned Fangladeshaidd yn Tower Hamlets.

Cydnabyddiaeth

Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth amrywiaeth eang o bartneriaid lleol sydd wedi gadael i'r Panel Ieuenctid ymwneud â'r bobl ifanc yn eu sefydliadau. Diolch i:

Brathay Trust | Bradford College | City of Bristol College | Grŵp Llandrillo Menai
Havering Sixth Form College | Hideaway Youth Project | Llamau
London South East Colleges | Manchester Youth Zone | No Limits
North Warwickshire & South Leicestershire College | Shrewsbury House Youth Club
South & City College Birmingham | The Proud Trust | Tower Hamlets College | Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
Young Shrewsbury | Youth First Lewisham | Youth Focus North East

Am fanylion proffil demograffig pob un o'r grwpiau o bobl ifanc yr ydym wedi eu cyrraedd, gweler Atodiad 1.

Canfyddiadau allweddol

Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau allweddol Panel Ieuenctid yr IOPC yng nghyswllt nifer o themâu allweddol a ddynodwyd gan y Panel. Sef:

- Anallu
- Lleisiau ymylol a lleiafrifol
- Deinameg ymddiriedaeth
- Dylanwadau cymdeithasol
- Gweledigaeth a hygyrchedd

Mae canfyddiadau'r Panel Ieuenctid yn canolbwyntio ar y rhwystrau a'r dylanwadau sy'n effeithio ar ymddiriedaeth a hyder pobl ifanc yn system gwynion yr heddlu. Penderfynodd y Panel Ieuenctid ar y canfyddiadau hyn ar sail gwybodaeth a gasglwyd gan dros 800 o bobl ifanc yn y digwyddiadau ymgysylltu â chymheiriaid.

Thema un: Anallu

Yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu â chymheiriaid, un cwestiwn yr oeddem yn ei glywed o hyd gan bobl ifanc oedd **"Pam fydden nhw'n gwrando arnom ni?"** Teimlai llawer o bobl ifanc na fyddent yn cael gwrandawiad petaent yn cyflwyno cwyn.

> *"Pam fydden nhw'n gwrando?"*
>
> *"Fydd ein lleisiau ni ddim yn cael eu clywed"*

Canfu'r Panel leuenctid broblem sylweddol o ran **anallu** ymhlith pobl ifanc. Ar draws cymunedau, dywedodd pobl ifanc eu bod yn teimlo yn analluog yn wyneb awdurdod. Roeddent yn teimlo na fyddent yn cael eu cymryd o ddifrif, neu hyd yn oed eu credu, gan y rhai mewn awdurdod, oherwydd eu hoedran a'u diffyg statws. Esboniodd un person ifanc ei fod yn teimlo "yn rhy fach i gael ei gymryd o ddifrif".

> *"Poeni am beidio cael ein cymryd o ddifrif oherwydd rydym yn ifanc a does gennym ni ddim grym."*
>
> *"Efallai na fyddant [pobl ifanc] yn cael eu credu nid yw eu barn o bwys."*
>
> *"A fyddaf yn cael fy nghredu?"*
>
> *"Rhy fach i gael fy nghymryd o ddifrif."*
>
> *"Mae awdurdodau yn gwneud i bobl ifanc deimlo'n dwp."*

Un o'r ffactorau allweddol tu ôl i'r ymdeimlad yma o anallu yw bod llawer o bobl ifanc **ddim yn deall rôl a phwerau** yr awdurdodau y maent yn rhyngweithio â nhw, ac nad ydynt yn **deall eu hawliau** yng nghyswllt yr awdurdodau yma. Mae hyn yn arbennig o amlwg o ran perthynas pobl ifanc â'r heddlu. Dywedodd pobl ifanc wrthym nad ydynt yn deall pwerau'r heddlu, beth sydd yn gamymddygiad, a'u hawliau yng nghyswllt ymddygiad yr heddlu.

> *"Ddim yn gwybod beth yw pwerau'r heddlu, ddim yn gwybod beth yw eich hawliau (e.e. stopio a chwilio)."*
>
> *"Ansicr o hawliau."*
>
> *"Nid oes gennym ni hawl."*
>
> *"Efallai na fydd pobl ifanc yn gwybod pa ymddygiad sy'n cael ei alw yn gamymddygiad."*

Clywsom hefyd gan rai pobl ifanc yr amgyffrediad bod gan yr Heddlu **rym 'absoliwt'** neu ddilyffethair ac nad ydynt yn atebol i unrhyw awdurdod arall. O ganlyniad, mae llawer yn teimlo y byddai'n ofer cyflwyno cwyn yn erbyn yr heddlu, oherwydd bod amgyffrediad bod yr anghyfartaledd mor fawr.

"Mae'r heddlu yn rym mawr, yn fwy tebygol o ennill."

"Mae gan yr heddlu rym absoliwt ac felly byddai unrhyw gwynion yn ofer."

"Dim gobaith ennill (ganddyn nhw y mae'r llaw uchaf)."

"Pwy fyddai'n credu fi fach yn hytrach na swyddog heddlu."

"Teimlo nad ydym ar dir cyfartal."

"Ein gair ni yn eu herbyn nhw."

"Mae pobl yn credu'r heddlu yn fwy na phobl gyffredin."

Dywedodd llawer o bobl ifanc na fyddent yn ddigon hyderus i gyflwyno cwyn ac y byddai arnynt **ofn cwyno.** Roedd ganddynt ofn y canlyniadau a'r effeithiau, o ran yr heddlu a'u cymunedau.

"Ofn gwrthdaro a chanlyniadau cwyno."

"Gallai cwyno waethygu'r sefyllfa a gallai'r unigolyn fod mewn gwaeth sefyllfa."

"Mae ofn yn arwain at fwy o broblemau."

"Gall eu gwaith fod mewn perygl os byddant yn cwyno."

"Gwneud pethau'n waeth."

Pan wnaethom siarad â phobl â phrofiadau negyddol o'r heddlu ac awdurdodau eraill, gwelwyd bod y profiadau yma yn creu diffyg ymddiriedaeth.Teimlai **pobl ifanc â hanes troseddol** eu bod yn cael eu targedu a'u labelu, ac na fyddent yn cael eu credu oherwydd eu gorffennol.

"Rwyf wedi cael cyswllt â'r heddlu o'r blaen a'm gadael i lawr."

"Os yw'r heddlu yn gwybod amdanoch yna fe allech deimlo na fyddwch yn cael eich cymryd o ddifrif."

"Os byddant â hanes gyda'r heddlu, maent yn teimlo na allant roi adroddiad – os byddant wedi cael eu cam-drin yna bydd ganddynt [hanes hefo'r heddlu]."

"Oherwydd eu bod yn gwybod pwy ydw i efallai na fyddan nhw'n fy nghymryd o ddifrif."

"Hanes gwael, dwi'n teimlo nad oes gennyf hawl i gwyno am swyddog."

"Nid yw ffrindiau sydd yn cael cyswllt â'r heddlu yn aml yn poeni, efallai eu bod wedi arfer hefo camymddygiad."

"Profiadau gwael e.e. gofal maeth'."

Crynodeb: Anallu

- Teimlai llawer o bobl ifanc na fyddent yn cael gwrandawiad petaent yn cyflwyno cwyn.
- Canfu'r Panel Ieuenctid broblem sylweddol o ran **anallu** ymhlith pobl ifanc.
- Llawer o bobl ifanc **ddim yn deall rôl a phwerau** yr awdurdodau y maent yn rhyngweithio â nhw, ac nid ydynt yn **deall eu hawliau** yng nghyswllt yr awdurdodau yma.
- Mae gan rai pobl ifanc yr amgyffrediad bod gan yr Heddlu 'rym absoliwt' neu ddilyffethair ac nad ydynt yn atebol i unrhyw awdurdod arall.
- Dywedodd llawer o bobl ifanc na fyddent yn ddigon hyderus i gyflwyno cwyn ac y byddai arnynt hyd yn oed **ofn cwyno.**
- Teimlai pobl ifanc â hanes troseddol na fyddent yn cael eu credu oherwydd eu gorffennol.

Thema dau: Lleisiau ymylol a lleiafrifol

Cyrhaeddodd digwyddiadau ymgysylltu â chymheiriaid y Panel leuenctid amrywiaeth mawr o bobl ifanc ar draws Cymru a Lloegr. Llwyddodd y digwyddiadau yma i gael cyfraniad mawr gan gymunedau Du Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a grwpiau lleiafrifol eraill fel pobl ifanc LGBTQ+, a'r rhai sydd â phrofiad personol o systemau'r heddlu a'r system gyfiawnder.

Canfu'r Panel leuenctid bod nodweddion hunaniaeth ac amrywiaeth yn cael **effaith gwirioneddol ar ymddiriedaeth a hyder. Tanlinellodd y Panel yn neilltuol effaith oedran, ethnigrwydd, dosbarth, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol**, a phrofiad personol. Yn gyffredinol mae pobl ifanc o grwpiau ymylol a lleiafrifol yn teimlo eu bod yn llai tebygol o gael eu credu ac yn fwy tebygol o ddioddef gwahaniaethu.

> *"Llai tebygol o gael ein credu: pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl o ardaloedd tlotach."*
>
> *"Mae rhai pobl yn cael eu chwilio fwy na grwpiau ethnig eraill."*
>
> *"Mae pobl yn wynebu triniaeth wahanol."*
>
> *"Gwahaniaethu – oedran/ hil/ rhyw."*
>
> *"Llai tebygol o gael eu credu: defnyddwyr cyffuriau, pobl alcoholig, pobl ymosodol, pobl â chofnod troseddol, pobl ifanc a phobl ifanc mewn gofal."*
>
> *"Gall dosbarth cymdeithasol effeithio'r ffordd yr ydych yn cael eich trin oherwydd stereoteipiau am y rhai o gefndiroedd cymdeithasol penodol."*
>
> *"Hil/ethnigrwydd, gall hil neu ethnigrwydd person ifanc arwain at eu gweld yn cael eu trin yn annheg gan yr IOPC."*

Pan siaradwyd ag aelodau o'r **gymuned LGBTQ+**, gwelwyd bod cyndynrwydd i roi adroddiadau am broblemau i'r awdurdodau oherwydd ofn homoffobia, cael eu beirniadu, a pheidio â chael eu cymryd o ddifrif. Teimlai pobl ifanc LGBTQ+ y byddai'n haws cadw'n dawel na rhoi eu hunain mewn sefyllfa fregus trwy godi llais.

> *"Os nad ydych wedi dod allan [fel rhywun hoyw] ni fyddwch yn rhoi adroddiad am sarhad homoffobig."*
>
> *"Pryder am ragfarn yn eu herbyn oherwydd grŵp y maent yn perthyn iddo."*
>
> *"Pryderon LGBTQ+."*
>
> *"Gall rhywioldeb a chyfeiriadedd rhywiol person ifanc ei arwain i gael ei drin yn annheg oherwydd homoffobia."*

Pan wnaethom siarad ag aelodau o gymunedau o leiafrifoedd ethnig, mewn ardaloedd trefol yn neilltuol, fe wnaethant ddweud wrthym fod cymunedau yn **teimlo eu bod wedi eu siomi** o ganlyniad i achosion sydd wedi cael llawer o sylw ar y cyfryngau pan nad oedd y deilliannau yn cael eu gweld yn foddhaol. Er enghraifft soniodd rhai pobl ifanc am enghraifft Mark Duggan.

Amlygodd nifer o bobl ifanc hefyd **faterion rhywedd** a all atal pobl rhag cwyno. Teimlai rhai y gallai menywod ifanc gael eu hatal rhag cwyno oherwydd rhagfarn rhyw neu stereoteipiau. Teimlai eraill y byddai dynion ifanc yn annhebygol o fod yn agored oherwydd syniadau am wrywdod.

> *"Mewn cymdeithas mae dynion yn teimlo na allant drafod eu problemau ac o ganlyniad ni fyddant yn sôn am unrhyw gŵyn."*
>
> *"Gwahaniaethu ar sail rhyw."*
>
> *"Rhywedd, gall rhywedd person ifanc arwain at ei weld yn cael ei drin yn annheg oherwydd rhagfarn rhyw."*

Crynodeb: Lleisiau ymylol a lleiafrifol

- Canfu'r Panel leuenctid bod nodweddion hunaniaeth ac amrywiaeth yn cael **effaith gwirioneddol ar ymddiriedaeth a hyder.**
- Mae pobl ifanc o grwpiau ymylol a lleiafrifol yn teimlo eu bod yn llai tebygol o gael eu credu ac yn fwy tebygol o ddioddef gwahaniaethu.
- Pan siaradwyd ag aelodau o'r **gymuned LGBTQ+,** gwelwyd bod cyndynrwydd i roi adroddiadau am broblemau i'r awdurdodau oherwydd ofn homoffobia, cael eu beirniadu, a pheidio â chael eu cymryd o ddifrif.
- Pan wnaethom siarad ag aelodau o gymunedau o leiafrifoedd ethnig fe wnaethant ddweud wrthym bod cymunedau yn **teimlo eu bod wedi eu siomi** o ganlyniad i achosion pan nad oedd y deilliannau yn cael eu gweld yn foddhaol.
- Amlygodd nifer o bobl ifanc hefyd **faterion rhywedd** a all atal pobl rhag cwyno.

Thema tri: Deinameg ymddiriedaeth

Wrth archwilio ymddiriedaeth a hyder yn system gwynion yr heddlu, canfu'r Panel Ieuenctid bod llawer o bobl ifanc yn syml **ddim yn ymddiried mewn awdurdodau, ac yn arbennig yr heddlu.**

> *"Mae'r heddlu i fod i'ch diogelu chi, ond mae rhai yn camddefnyddio eu grym."*
>
> *"Peidiwch ag ymddiried yn yr heddlu - diwylliant o ddrwgdybiaeth."*
>
> *"Ymdeimlad gwrth-lywodraeth."*
>
> *"Diffyg ymddiriedaeth mewn awdurdodau."*
>
> *"Yr heddlu ddim yn dilyn eu rheolau eu hunain."*

Mae'r ddrwgdybiaeth gyffredinol hon o'r heddlu ac awdurdodau eraill yn cael **effaith pellach** ar ymddiriedaeth yn system gwynion yr heddlu a Swyddfa Annibynnol Cwynion yr Heddlu. Mae diffyg ymddiriedaeth yn yr heddlu, yn neilltuol, yn niweidiol iawn i lefelau ymddiriedaeth yn system gwynion yr heddlu.

> *"Gall rhai pobl ifanc deimlo dan fygythiad oherwydd eu bod yn gorfod mynd at yr IOPC sy'n cael ei weld fel awdurdod."*

Gwelsom bod gan bobl ifanc bryderon ac **amheuon am berthynas yr IOPC â'r heddlu**. Roedd rhai pobl ifanc yn amheus a oedd yr IOPC yn annibynnol oddi ar yr heddlu mewn gwirionedd, ac roedd eraill yn amau a oedd gan yr IOPC ddigon o bwerau dros yr heddlu i gyflawni cyfiawnder gwirioneddol i ddinasyddion y mae camymddygiad yn effeithio arnynt.

> *"[Nid wyf] yn ymddiried yn yr IOPC na'r heddlu, [maen nhw'n] gwneud [yr] un peth felly rwy'n meddwl eu bod yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd."*
>
> *"Mynd at yr heddlu, meddwl bod yr IOPC yn rhan o hynny – ond dydyn nhw ddim."*
>
> *"Mae'r system yn ymddangos fel petai yn rhy wrthwynebus, mae hyn mewn gwirionedd yn darlunio'r IOPC [fel petai] yn llai dilys."*

Pan wnaethom holi pobl ifanc a oeddent yn ymddiried yn system gwynion yr heddlu, a pham, fe wnaethom ganfod nad oeddent yn gyffredinol yn ymddiried yn y system. Dywedodd pobl ifanc wrthym nad ydynt yn credu bod y **broses gwynion** yn un y gallent ymddiried ynddi, gan bod raid i berson ifanc gyflwyno cwyn i'r llu heddlu y maent yn teimlo eu bod wedi cael cam ganddynt i gychwyn. Dywedodd pobl ifanc hefyd nad oedd ganddynt ffydd yn **neilliant cwynion**, gan nad oeddent yn gallu gweld bod cwynion yn arwain at ganlyniadau positif.

> *"Mae'r system gwynion yn arwynebol."*
>
> *"Ddim yn sicr y bydd y gŵyn yn cael ei thrin."*
>
> *"Beth sy'n digwydd i'r heddlu fyth? - 'nid yw ymddiheuriad yn golygu llawer mewn gwirionedd- rhaid i rywbeth ddigwydd.'"*
>
> *"Cael eich trin yn annheg – fyddai hynny'n cael ei ddatrys."*
>
> *"Rydym yn teimlo na fyddai hyd yn oed yn gwneud gwahaniaeth."*
>
> *"Gobaith ffug."*
>
> *"Meddwl ei fod yn wastraff amser."*

Neges cyffredinol gan bobl ifanc am ymddiriedaeth oedd **"nid ydym yn ymddiried yn yr hyn nad ydym yn ei adnabod."** Gwelir yr IOPC fel corff diwyneb ac anghyfarwydd gan y rhan fwyaf o bobl ifanc. Mae eu hymddiriedaeth yn seiliedig ar y cyfarwydd, cysylltiad a thryloywder – y cyfan yn absennol o'u hamgyffrediad o'r IOPC ar hyn o bryd.

> *"Fe fyddai'n well gennyf gwyno wrth weithiwr ieuenctid na'r IOPC, rwyf wedi cael profiad negyddol gyda'r heddlu. Rwy'n gweld gweithiwr ieuenctid yn ddyddiol ac mae gennyf fwy o ymddiriedaeth."*
>
> *"Nid wyf yn ymddiried ynddynt achos nid wyf yn eu hadnabod."*
>
> *"Gwell gennyf ymddiried mewn teulu a ffrindiau."*
>
> *"Mae'r IOPC yn ymddangos yn anodd mynd ato."*

Crynodeb: Deinameg ymddiriedaeth

- Yn syml, mae llawer o bobl ifanc sydd **ddim yn ymddiried mewn awdurdodau, ac yn arbennig yr heddlu.**
- Mae'r ddrwgdybiaeth gyffredinol hon o'r heddlu ac awdurdodau eraill yn cael **effaith pellach** ar ymddiriedaeth yn system gwynion yr heddlu a Swyddfa Annibynnol Cwynion yr Heddlu.
- Mynegodd pobl ifanc bryderon ac amheuon am **berthynas yr IOPC â'r heddlu**. Roedd rhai yn amheus â oedd yr IOPC yn annibynnol oddi ar yr heddlu mewn gwirionedd, ac roedd eraill yn amau a oedd gan yr IOPC ddigon o bwerau dros yr heddlu.
- Dywedodd pobl ifanc wrthym nad ydynt yn credu bod y **broses gwynion** yn un y gallent ymddiried ynddi, gan bod raid i berson ifanc gyflwyno cwyn i'r llu heddlu y maent yn teimlo eu bod wedi cael cam ganddynt.
- Dywedodd pobl ifanc hefyd nad oedd ganddynt ffydd yn **neilliant cwynion**, gan nad oeddent yn gallu gweld bod cwynion yn arwain at ganlyniadau positif.

Thema pedwar: Rôl dylanwadau cymdeithasol

Yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu â chymheiriaid, tanlinellodd pobl ifanc y rôl allweddol sydd gan **gyfryngau cymdeithasol a dylanwadau cymdeithasol ehangach**. Mae'r dylanwadau yma, roeddent yn dweud, yn cael effaith sylweddol ar ymddiriedaeth a hyder.

Roedd cyfeiriadau aml at gyfryngau cymdeithasol hefyd, y teimlwyd eu bod yn cael effaith negyddol ar ymddiriedaeth. Dywedodd pobl ifanc wrthym bod **storïau a delweddau negyddol** am ymddygiad yr heddlu yn cael eu lledaenu yn gyflym iawn ar gyfryngau cymdeithasol, gyda phostiadau a fideos yn cael eu rhannu yn gyflym, ac yn cyfrannu at **ddarlun wedi ei gamystumio** o realiti. Dywedodd pobl ifanc y gall cyfryngau cymdeithasol hefyd fwydo amgyffrediad negyddol o'r genhedlaeth iau o ran yr heddlu.

> *"Mae profiadau gwael [gyda'r heddlu] yn cael eu rhannu fwy na'r rhai da – dim dylanwad."*

Canfu'r Panel Ieuenctid bod y bobl o gwmpas pobl ifanc yn cael dylanwad mawr ar eu hagweddau a'u hamgyffrediad, gan gynnwys eu teuluoedd a grwpiau cymheiriaid. Yn aml mae'r dylanwadau hyn yn gwasanaethu i atgyfnerthu agwedd negyddol at awdurdod. Dywedodd rhai pobl ifanc wrthym y byddai arnynt **ofn ymateb** y bobl o'u cwmpas petaent yn cyflwyno cwyn (e.e. y teulu yn poeni, ofn colli ffrindiau).

> *"Gall y teulu boeni y byddwch yn mynd i fwy o helynt."*
>
> *"Ofn y gallai pobl eraill eich beirniadu neu beidio eich helpu yn arbennig os na chewch chi ddim byd allan o'r gŵyn."*
>
> *"Dylanwad cymheiriaid, gall cyflwyno cwyn arwain at bobl yn galw enwau arnoch."*
>
> *"Ofn colli ffrindiau."*
>
> *"Profiad teuluol."*

Ymhlith pobl ifanc yn gyffredinol a'r rhai o gymunedau o leiafrifoedd ethnig yn neilltuol, canfu'r Panel bod y **"diwylliant prepian"** yn gyffredin. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd llawer o bobl ifanc yn osgoi unrhyw gyswllt â'r heddlu rhag ofn cael eu labelu yn 'brep'. Mewn rhai cymunedau a diwylliannau, dywedodd pobl ifanc y byddai unrhyw gyswllt â'r heddlu yn cael ei weld yn **annerbyniol.** O ganlyniad, mewn rhai achosion gall pobl ifanc gael eu darbwyllo i beidio â chyflwyno cwyn gan aelodau o'u teuluoedd.

> *"Efallai na fydd normau crefyddol a diwylliannol yn cefnogi mynd at bobl o'r tu allan am help."*
>
> *"Gangiau - prepwyr yn cael pwythau."*
>
> *"Dwi ddim yn slei."*
>
> *"Normau diwylliannol."*
>
> *"Adnabod pobl sydd wedi cael profiadau negyddol wrth gyflwyno cwynion."*

Crynodeb: Rôl dylanwadau cymdeithasol

- Tanlinellodd pobl ifanc y rôl allweddol sydd gan **gyfryngau cymdeithasol a dylanwadau cymdeithasol ehangach.**
- Dywedodd pobl ifanc wrthym bod **storïau a delweddau negyddol** am ymddygiad yr heddlu yn cael eu lledaenu yn gyflym iawn ar gyfryngau cymdeithasol, gan gyfrannu at **ddarlun wedi ei gamystumio** o realiti.
- Dywedodd rhai pobl ifanc wrthym y byddai arnynt **ofn ymateb** y bobl o'u cwmpas petaent yn cyflwyno cwyn.
- Canfu'r Panel Ieuenctid bod **"diwylliant prepian" yn gyffredin** ymhlith pobl ifanc. Mae hyn yn golygu y bydd llawer o bobl ifanc yn osgoi unrhyw gyswllt â'r heddlu rhag ofn cael eu labelu yn 'brep'.

Thema pump: Gweledegdd a hygyrchedd y system

Canfu'r Panel leuenctid bod rhai rhwystrau ymarferol iawn yn wynebu pobl ifanc a all fod angen cyflwyno cwyn.

Dywedodd pobl ifanc wrthym **na fyddent yn gwybod ble i fynd** i gyflwyno cwyn. Nid oedd mwyafrif y bobl ifanc a ddaeth i ddigwyddiadau ymgysylltu â chymheiriaid yn gwybod am fodolaeth Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Mae **diffyg cydnabyddiaeth o'r IOPC.**

> *"Gwybodaeth – sut i gyflwyno cwyn, beth sy'n digwydd pan gyflwynir cwyn."*
>
> *"Ddim yn gwybod sut i gyflwyno cwyn neu sut mae'r system yn gweithio."*
>
> *"Ddim yn gwybod beth allwch chi gwyno amdano."*
>
> *"Dwi ddim yn gwybod sut."*
>
> *"'Dyn nhw [pobl ifanc] ddim yn gwybod sut i'w wneud a pha weithdrefn i'w dilyn."*

Pan wnaethom esbonio'r broses gwyno i bobl ifanc, fe welwyd y gallai'r broses ei hun atal pobl ifanc rhag cwyno. Mynegodd pobl ifanc bryder am hyd **yr amser y byddai'n ei gymryd, a fyddent yn deall yr iaith a'r camau fyddai'n rhan o hynny, a'r amgyffrediad o 'drafferth' y weithdrefn.**

> *"Proses faith."*
>
> *"Amser ac ymdrech i fynd ar ei ôl (fel person ifanc)."*
>
> *"Yr amser y byddai'n gymryd i ddelio â'r gŵyn."*
>
> *"Y broses yn cymryd gormod o amser."*
>
> *"Proses sy'n codi ofn."*

"Trafferth i sortio'r peth. Yn cymryd proses hir. Gwell symud ymlaen."

"Os a phryd, gallu anfon manylion ble y gallaf gwyno – pwyso a mesur y gobaith – faint o sianeli y mae'n mynd trwyddynt cyn iddi gael sylw."

Clywsom bryderon hefyd y gallai fod rhwystrau neilltuol i'r rhai ag **anawsterau dysgu, problemau iechyd meddwl, a'r Saesneg yn ail iaith.**

"Rhwystr iaith."

"Gall anabledd atal y person ifanc rhag cyflwyno cwyn oherwydd na fydd yn gorfforol yn gallu mynd i mewn i orsaf heddlu neu anabledd dysgu a all ei gwneud yn anos iddynt ddeall y broses."

"Gall anawsterau dysgu/salwch iechyd meddwl ei gwneud yn anodd i ddeall y broses."

"Problemau cyfathrebu cymdeithasol."

"Anawsterau dysgu."

"Saesneg ddim yn iaith gyntaf."

"Barnu ar sail iechyd meddwl."

"Gorfod ail-fyw profiadau, gall fod yn drawmatig."

"Anabl hefyd, ddim yn ei gymryd yn ddifrifol – efallai na fydd yn gywir."

Yn gyffredinol, daeth y Panel leuenctid i'r casgliad bod y system gwynion ar hyn o bryd **ddim yn teimlo yn agored i bawb.** Teimlai'r Panel y dylid gwneud mwy i agor y system i fyny, ei gwneud yn gynhwysol a hygyrch i unigolion ar draws y boblogaeth o bobl ifanc.

Crynodeb: Gweledd a hygyrchedd y system

- Dywedodd pobl ifanc wrthym **na fyddent yn gwybod ble i fynd** i gyflwyno cwyn. Nid oedd mwyafrif y bobl ifanc a ddaeth i ddigwyddiadau ymgysylltu â chymheiriaid yn gwybod am fodolaeth yr IOPC.
- Pan wnaethom esbonio'r broses gwyno i bobl ifanc, fe welwyd y gallai'r broses ei hun atal pobl ifanc rhag cwyno. Mynegodd pobl ifanc bryder am hyd **yr amser y byddai'n ei gymryd, a fyddent yn deall yr iaith a'r camau** fyddai'n rhan o hynny.
- Clywsom bryderon hefyd y gallai fod rhwystrau neilltuol i'r rhai ag **anawsterau dysgu, problemau iechyd meddwl, a'r Saesneg yn ail iaith.**
- Daeth y Panel leuenctid i'r casgliad bod y system gwynion ar hyn o bryd **ddim yn teimlo yn agored i bawb**. Teimlai'r Panel y dylid gwneud mwy i agor y system i fyny, ei gwneud yn gynhwysol a hygyrch i unigolion ar draws y boblogaeth o bobl ifanc.

Argymhellion allweddol

Mae'r adran hon yn cyflwyno argymhellion allweddol Panel Ieuenctid yr IOPC yng nghyswllt pedwar maes:

- Cyfathrebu a'r cyfryngau cymdeithasol
- Ymgysylltiad cymunedol
- Amrywiaeth a phobl
- Dyfodol y Panel Ieuenctid

Mae argymhellion y Panel Ieuenctid yn canolbwyntio ar atebion i wella ymddiriedaeth a hyder yn system gwynion yr heddlu ymhlith pobl ifanc ar draws Cymru a Lloegr. Gweithiodd y Panel gyda gweithwyr proffesiynol allweddol yr IOPC i gyd-greu yr argymhellion sy'n seiliedig ar syniadau a gasglwyd yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu â chymheiriaid.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r holl rwystrau a dylanwadau a ddynodwyd yn y canfyddiadau yn cael eu trafod yn yr argymhellion. Canolbwyntiodd y Panel eu hargymhellion ar y syniadau am newid yr oeddent yn teimlo fyddai yn fwyaf tebygol o weithio a chael yr effaith mwyaf.

Argymhellion cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol

1. **Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth:** Targedu pobl ifanc yn y mannau maent yn treulio amser – e.e. hysbysebion ar orsafoedd radio lleol, campysau addysg, ar fysiau a thrafnidiaeth leol arall.

2. **Llwyfannau cyfryngau cymdeithasol:** Defnyddio'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol y mae pobl ifanc yn eu defnyddio i'w hymgysylltu â gwaith yr IOPC. Gellid gwneud hyn trwy rannu storïau, dangos 'diwrnod ym mywyd' staff/adrannau yr IOPC, hyrwyddo adroddiadau wythnosol, defnyddio polau piniwn, rhannu storïau am lwyddiannau gwirioneddol, a defnyddio adrannau sylwadau.

3. **'Wyneb dynol' i'r IOPC:** Gwneud i'r IOPC ymddangos yn haws ei gyrraedd trwy gyfathrebu – e.e. dathlu eiconau yn ystod mis hanes pobl dduon i gysylltu gyda chymunedau BAME. Gallai olygu ychwanegu at frand yr IOPC, e.e. lliw, symbolau, animeiddiadau, neu chwarae ar eiriau.

4. **Canllaw person ifanc i'r system gwynion:** Adnodd wedi ei anelu at bobl ifanc yn egluro'r system gwynion. Gellid gwneud hyn ar fformatau gwahanol gan gynnwys poster/taflen, animeiddiad, info-gaffig.

Argymhellion ymgysylltiad cymunedol

1. **Gweithio gyda thrydydd partïon y mae ymddiriedaeth ynddynt:** Llunio partneriaethau gydag arweinwyr cymunedol i gynyddu ymddiriedaeth a dealltwriaeth o'r IOPC h.y. sefydliadau crefyddol, grwpiau cymunedol ac ieuenctid.

2. **Eiriolwyr ieuenctid:** Datblygu cynllun ar gyfer 'eiriolwyr ieuenctid' yn y gymuned i gefnogi pobl ifanc a all fod angen cyflwyno cwyn.

3. **Mwy o gydweithio gyda'r IOPC, heddlu a'r gymuned:** Cyfarfodydd gyda'r heddlu, aelodau o'r gymuned a chynrychiolwyr yr IOPC, gyda'r canfyddiadau yn cael eu rhannu trwy 'Dysgu'r Gwersi'. Partneriaeth bosibl gydag un llu heddlu i osod patrwm arfer da.

4. **Parhau'r ymgysylltiad â phobl ifanc:** Mwy o ymwneud â phobl ifanc yn lleol mewn canolfannau ieuenctid, grwpiau cymunedol a champysau addysg.

Argymhellion pobl ac amrywiaeth yr IOPC

1. **Cyrraedd talent amrywiol:** Hyrwyddo cyfleoedd am swyddi, hyfforddiant a gwirfoddoli trwy elusennau i dargedu grwpiau penodol.

2. **Hyfforddi a datblygu staff:** Dysgu sut i gyfathrebu a llunio perthynas dda gyda phobl ifanc, gan gynnwys BAME, LGBTQ+, yr anabl, grwpiau ffydd ac ati.

3. **Tryloywder ynghylch amrywiaeth:** Rhannu gwybodaeth am amrywiaeth y gweithlu IOPC ar hyn o bryd a rhoi sylw i gynnydd.

4. **Cynrychiolwyr cymunedol:** Sefydlu cynrychiolwyr tymor hir (gwirfoddol neu gyflogedig) i'r IOPC ar y lefel gymunedol.

Argymhellion ar gyfer dyfodol Panel Ieuenctid yr IOPC

Dylai'r Panel Ieuenctid ddod yn Grŵp Cynghori Ieuenctid annibynnol gyda'r swyddogaethau canlynol:

1. **Cyflawni'r argymhellion:** Gweithio ar argymhellion y Panel Ieuenctid ar gyfer cyfathrebu, ymgysylltiad cymunedol, pobl ac amrywiaeth.

2. **Ymchwil ac ymgysylltiad:** Parhau i ymgysylltu â phobl ifanc ar lefel y gymuned i ddeall eu safbwyntiau a chynyddu ymwybyddiaeth.

3. **Craffu:** Dadansoddi'r achosion y mae'r IOPC yn ymdrin â nhw; craffu ar y defnydd o gyfryngau a chyfathrebiadau.

4. **Cyngor:** Rhoi cyngor yn ymwneud yn benodol â phobl ifanc i'r IOPC ar bolisi a strategaeth.

5. **Cysgodi a mentora:** Cysgodi adrannol a mentora gwrthdro i gynyddu tryloywder a chynyddu dealltwriaeth.

Casgliad a symud ymlaen

Rydym yn ddiolchgar i aelodau Panel Ieuenctid yr IOPC a'r holl randdeiliaid mewnol ac allanol amrywiol sydd wedi cyfrannu at wneud y darn hwn o waith yn llwyddiant. Trwy'r ddealltwriaeth a'r argymhellion a gafwyd yn yr adroddiad hwn, mae Panel Ieuenctid yr IOPC eisoes wedi gwneud cyfraniad sylweddol at waith yr IOPC.

Trwy eu hymgysylltiad â dros 800 o bobl ifanc ar draws Cymru a Lloegr, mae Panel Ieuenctid yr IOPC wedi llwyddo i gyrraedd croestoriad amrywiol o'r boblogaeth o ieuenctid ac ymgysylltu â nhw. Maent wedi gwneud ymdrechion neilltuol i glywed gan y rhai y mae eu barn yn cael ei diystyru yn aml. Mae'r broses cymheiriaid i gymheiriaid hon o werth anferth, fel darn o waith ymchwil ac fel ymarfer ymgysylltu.

Ar 13 Rhagfyr 2018, daeth cynulleidfa o randdeiliaid allweddol at ei gilydd yn swyddfeydd yr IOPC yn Canary Wharf ar gyfer cyflwyniad terfynol y Panel Ieuenctid. Yn y digwyddiad hwn, roedd rhanddeiliaid yn ymwneud yn weithredol â gofyn cwestiynau i'r Panel Ieuenctid a thrafod eu canfyddiadau a'u hargymhellion. Gofynnwyd i'r rhai oedd yn bresennol hefyd awgrymu syniadau ar gyfer eu datblygu yn y dyfodol ac roedd rhai o'r syniadau yn cynnwys:

- Dylai'r Panel Ieuenctid gymryd cylch gorchwyl ehangach i edrych ar graffu, cyngor, eiriolaeth, hyfforddiant a recriwtio.
- Gall y Panel Ieuenctid chwarae rôl flaenllaw yn pontio'r bwlch rhwng yr IOPC a phobl ifanc.
- Byddai rhai rhanddeiliaid mewnol yn hoffi i'r Panel Ieuenctid ddod yn Grŵp Ymgynghorol y gallant eu comisiynu i wneud darnau penodol o waith.
- Gellid gwneud mwy i danlinellu effaith bositif cyflwyno cwyn i'r rhai sydd â phrofiad o hynny.
- Byddai o gymorth pe gallai'r Panel Ieuenctid ymgysylltu â phobl o fewn yr IOPC yn y grŵp oedran 16-25.
- Dylai'r Panel barhau ei ymdrechion i ymgysylltu â'r bobl ifanc sydd yn cael eu gwthio i'r cyrion waethaf.
- Dylai cyflwyniadau gan y Panel Ieuenctid yn y dyfodol gynnwys mwy o randdeiliaid allanol a chymunedol.

Yn amodol ar y penderfyniadau terfynol am ddyfodol y prosiect, ein gobaith yw y bydd y Panel Ieuenctid yn cael ei ddatblygu ymhellach fel dull i bobl ifanc roi gwybodaeth i fod yn sail i waith yr IOPC. Gall y Panel Ieuenctid helpu i bontio'r bwlch rhwng pobl ifanc a chwynion yr heddlu, trwy ymgysylltu parhaus â'r boblogaeth o bobl ifanc. Gall y Panel Ieuenctid roi cyngor penodol i bobl ifanc i gefnogi strategaeth yr IOPC ac mae ganddo rôl bwysig hefyd i'w chwarae wrth gyflawni'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

Cysylltwch:

@leadersunlocked

info@leaders-unlocked.org

stakeholderengagement@policeconduct.gov.uk

www.leaders-unlocked.org

Atodiad 1: Gwasgariad demograffig y digwyddiadau ymgysylltu â chymheiriaid

Sefydliad gwesteio	Proffil demograffig y bobl ifanc yr ymgysylltwyd â hwy
Bradford College	Pobl ifanc yn astudio amrywiaeth o gyrsiau coleg, yn bennaf o gymunedau Mwslimaidd Pacistanaidd yng Ngorllewin Swydd Efrog.
Brathay Trust	Pobl ifanc yn bennaf o'r gymuned Bacistanaidd yn Bradford, gan gynnwys rhai â phrofiad o broblemau iechyd meddwl.
Coleg Dinas Bryste	Pobl ifanc yn astudio Gwasanaethau Cyhoeddus a chyrsiau cysylltiedig o ardal Bryste. Roedd y grŵp yn cynnwys un myfyriwr â nam ar ei glyw â chyfieithydd ar y pryd yn yr ystafell.
Grŵp Llandrillo Menai	Pobl ifanc o gefndiroedd Cymreig, gan gynnwys o'r cymunedau Cymraeg yng Ngogledd Cymru.
Havering Sixth Form College	Pobl ifanc yn astudio'r gyfraith at Lefel A o gymunedau amrywiol o ran ethnigrwydd yn Essex a Dwyrain Llundain.
Hideaway Youth Project	Pobl Ifanc o ardal Moss Side o Fanceinion, o gefndir Affricanaidd-Garibïaidd yn bennaf.
Llamau	Pobl Ifanc o gefndiroedd Cymreig, gyda phrofiad personol o ddigartrefedd, y system gofal, a/neu'r system cyfiawnder troseddol.
London South East Colleges	Myfyrwyr amrywiol o'r gymuned leol yn Woolwich, yn astudio amrywiaeth o bynciau gan gynnwys Celfyddydau Perfformio, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Teithio a Thwristiaeth a Busnes.
Manchester Youth Zone	Mae Manchester Youth Zone yn cynnig lle diogel unigryw i bobl ifanc rhwng 6 ac 19, hyd at 25 gydag anghenion ychwanegol, o bob rhan o Fanceinion.
No Limits	Pobl ifanc o ardal Southampton, gyda phrofiad personol o broblemau iechyd meddwl, o gefndiroedd Gwyn Prydeinig yn bennaf.

North Warwickshire & South Leicestershire College	Grŵp mawr cymysg o fyfyrwyr BAME gwasanaethau cyhoeddus a Lefel 2 a 3 yn bennaf.
Shrewsbury House Youth Club	Pobl ifanc yn mynychu clwb ieuenctid o gymunedau difreintiedig yn ardal Everton o Lerpwl.
South & City College Birmingham	Pobl ifanc yn astudio Gwasanaethau Cyhoeddus a chyrsiau cysylltiedig, o gymunedau ethnig cymysg yn ardal Birmingham.
The Proud Trust	Pobl ifanc o'r gymuned LGBTQ+ o ardal Manceinion Fwyaf.
Tower Hamlets College	Myfyrwyr ar gyrsiau cymysg, yn bennaf o'r gymuned Bangladeshaidd yn Tower Hamlets.
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	Myfyrwyr prifysgol ar gyrsiau Plismona o ardal Gogledd Cymru.
Young Shrewsbury	Plant a phobl ifanc o gefndiroedd Gwyn Prydeinig sy'n defnyddio gwasanaethau ieuenctid yn Amwythig.
Youth First Lewisham	Pobl ifanc o gefndiroedd ethnig cymysg o ardal Lewisham, Llundain, gan gynnwys rhai o'r gymuned LGBTQ+.
Youth Focus North East	Pobl Ifanc o ardaloedd Gateshead a Middlesbrough, llawer ohonynt â phrofiad o unigrwydd a bod yn ynysig, a rhai ohonynt wedi profi problemau iechyd meddwl.